OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 472 (Cy. 150)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Terfynau Cyflymder a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

*Gwnaed* *23 Mawrth 2016*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494/A550) ("y cefnffyrdd"), wedi'u bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd, neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewloe, Sir y Fflint) (Terfynau Cyflymder a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Ebrill 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” *(“the lengths of the trunk roads”)* yw'r darnau hynny o’r brif gerbytffordd a’r slipffyrdd ar hyd y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, deithio ar hyd y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

**Ataliadau**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni wedi ei hatal dros dro drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau neu'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig y 23 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN l
### Darnau o Gefnffordd yr A55

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 13 (Cyfnewidfa Abergwyngregyn).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn) hyd at bwynt 600 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cyfnewidfa Cylchfan Puffin).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 15 (Cyfnewidfa Llanfairfechan) i ganolbwynt Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cyfnewidfa Cylchfan Puffin) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy).

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 600 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 22 (Cyfnewidfa Hen Golwyn).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23 (Cyfnewidfa Llanddulas).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 22 (Cyfnewidfa Hen Golwyn) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 (Cyfnewidfa Llanddulas) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 25 (Cyfnewidfa Bodelwyddan).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 24A (Cyfnewidfa Llan Sain Siôr) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Llanelwy).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Llanelwy) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath) i bwynt 400 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 29 (Cyfnewidfa Pant-y-dulath) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt isbont Cyffordd 32A (Cyfnewidfa Springfield).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o bwynt canol isbont Cyffordd 32A (Cyfnewidfa Springfield) i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o bwynt canol Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Llaneurgain).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 33 (Cyfnewidfa Llaneurgain) i bwynt canol trosbont y B5127.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont y B5127 i bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) gan gynnwys dolenni mewnol ac allanol a slipffyrdd Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 35 (Cyfnewidfa Dobshill) tua'r dwyrain i Ffin Cymru/ Lloegr.

**ATODLEN 2**
**Darnau o Gefnffordd yr A494/A550**

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe) i bwynt 800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r A494/yr A550 o Gyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe).

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 34 ar yr A55 (Cyfnewidfa Ewloe) i bwynt 800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494/yr A550.

Y darn o'r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494/yr A550 i ffin Cymru/Lloegr.